

Ysgol Abernant Prospectws



Abernant School Prospectus

Ysgol Gynradd Abernant

Enw a chyfeiriad yr ysgol :

Ysgol Gynradd Abernant
Abernant
Caerfyrddin
Sir Gaerfyrddin
SA33 5RR

Rhif ffôn :

☎ 01267 281418

E-bost :

admin@abernant.ysgolccc.org.uk

Pennaeth:

Mrs Geraldine Jenkins

Cadeirydd y Llywodraethwyr :

Mrs G. Lewis
Esgair hir Isaf,
Heol Henfwlch
Caerfyrddin.
SA33 6AO
☎ 01267 230603

Staff yr Ysgol:

Athrawes :

Mrs L. Davies

Athrawes :

Miss C. Davies

Cynorthwydd Dosbarth :

Mrs S. Smith

Mrs H. Watts

Glanhawraig :

Rs L Wood

Cogyddes :

Miss C. Thompson

Clerc arian cinio :

Miss C. Thompson

Goruchwylwraig canol dydd :

Mrs S. Smith

Athrawes Beripatetig :

Mrs M. O'Toole

Mrs E. Williams

Goruchwylwraig Clwb Brecwast:

Miss C.Thompson

Mrs G.Thomas

Swyddog Gweinyddol:

Miss G.Lewis

Clerc i'r Corff Llywodraethol:

Miss G.Lewis
Esgair hir Isaf,
Heol Henfwlch
Caerfyrddin.
SA33 6AO

Annwyl Rien

Mae dewis yr ysgol gywir i'ch plentyn yn holl bwysig. Mae'r rhan fwyaf o rieni am sicrhau addysg dda i'w plant ond maent hefyd am iddynt fod yn hapus a theimlo'n ddiogel. Yn Ysgol Gynradd Abernant, credwn y gallwn gynnig pob un o'r pethau hyn. Rydym yn ymfalchïo yn yr addysg eang, gytbwys a llawn a ddarparwn yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2, ac mae safonau uchel yr addysgu a'r dysgu yn dwyn clod i waith caled y staff a'r disgyblion. Yn yr un modd, rydym hefyd yn ymfalchïo yn yr awyrgylch cyfeillgar a chydweithredol sydd bob amser i'w weld. Mae llawer o ymwelwyr i'r ysgol yn sôn am y croeso cynnes y maent yn ei gael a chwarteisi ac aeddfedrwydd ein disgyblion.

Rydym yn gwerthfawrogi ein disgyblion ac yn credu y dylai eu hamser yn yr ysgol fod yn werthfawr ac yn foddhaus. Petaech yn dewis anfon eich plentyn i Ysgol Abernant, rwyf yn gwbl hyderus y byddwch wedi gwneud y penderfyniad cywir.

Os oes gennych unrhyw gwestiwn neu bryder ynghylch yr ysgol, neu os yw eich plentyn yn anhapus ynglŷn ag unrhyw agwedd o fywyd ysgol cysylltwch â'r ysgol yn syth.

Yn gywir

Geraldine Jenkins

Pennaeth

Ethos a Gwerthoedd yr Ysgol - Nodau ac Amcanion

Prif nod Ysgol Abernant yw addysgu ei holl ddisgyblion hyd eithaf eu gallu gan roi cyfle i bob plentyn ddatblygu'n llawn fel aelod o'r gymdeithas.

Amcanion:

- I ddatblygu sgiliau sylfaenol y plant mewn llythrennedd, rhifedd, Technoleg Gwybodaeth a sgiliau meddwl.
- I ddatblygu gwerthoedd moesol a bod yn ymwybodol o, ac yn oddefol at, hiliau a chrefyddau eraill.
- I greu awyrgylch hapus a chartrefol lle mae dysgu yn digwydd o fewn eu cymuned.
- I ddatblygu sgiliau ac agweddau ar gyfer addysg gydol oes.
- I feithrin a datblygu hunanddisgyblaeth a hybu cydymdeimlad at eraill.
- I roi cyfle cyfartal i fechgyn a merched ym mhob agwedd o waith a bywyd yr ysgol
- I gyflwyno cwricwlwm eang a chytbwys a fydd yn berthnasol i oed, gallu a chefnidir y plentyn er mwyn i bob disgybl gyrraedd ei botensial.
- I bwysleisio'r angen am ddeall a gofalu am yr amgylchedd a'r gymuned.
- I addysgu'r plant trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg i'w helpu i fod yn ddwyieithog erbyn iddynt gyrraedd 11 oed.
- I annog y disgyblion fel unigolion i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas.
- I sicrhau bod y berthynas rhwng yr ysgol, cartref a'r gymuned yn hybu cydweithrediad ymhlith rhieni, staff a llywodraethwyr er lles y disgybl.



AELODAU'R CORFF LLYWODRAETHOL.

Y LLYWODRAETHWYR	CYNYRCHIOLAETH	DYDDIAD TERFYN
Mrs. K. Gabillia	Enwebiad y Cyngor Cymuned	16/05/2018
Mrs. L. Beynon	Rhiant Lywodraethwr	23/11/2018
Mrs. N. Rees	Rhiant Lywodraethwr	13/03/2020
Mr. P Smith	Enwebiad Cymunedol	01/01/2020
Mrs. E. Jones	Rhiant Lywodraethwr	01/01/2020
Mrs. G. Lewis (Cadeirydd)	Awdurdod Addysg Leol	25/09/2020
Mrs. M. Griffiths	Awdurdod Addysg Leol	30/03/2018
Mrs. G. Jenkins	Pennaeth yr Ysgol	-
Mrs. L. Davies	Cynrychiolydd Athrawon	03/01/2020

Disgrifiad o'r Ysgol a'i chynefin

Ysgol wledig ac iddi nodweddion unigryw, wedi ei lleoli ym mhentref prydferth Abernant. Ar hyn o bryd mae 23 o ddisgyblion ar y gofrestr. Amgylchynir yr Ysgol gan fyd natur a'i ryfeddod ac mae hyn yn fodd ychwanegol o gyfoethogi addysg a phrofiadau'r disgyblion. Rhoddir pwyslais mawr ar fynd â'r disgyblion allan i'r gymuned a'u bod yn cael ymdeimlad o berthyn i'r gymdeithas leol.

Polisi Iaith

Mae'n Ysgol Gynradd ddwyieithog 'Categori Cymraeg' mewn cydsyniaeth â Pholisi Iaith Cyngor Sir Gâr sy'n golygu mai Cymraeg yw prif gyfrwng y Cyfnod Sylfaen, ac mae hyn yn sicrhau sylfaen gadarn yn yr iaith. Yng nghyfnod allweddol 2 bydd elfen gref o ddwyieithrwydd yn yr addysgu. Pwysleisiwn serch hynny ein bod yn cyfieithu i'r Saesneg er mwyn gwneud i'r plant hynny o gartrefi di-gymraeg deimlo'n gartrefol, yn hapus, a'u bod yn hyderus yn eu haddysg. Nod y polisi dwyieithog hwn yw addysgu'r plant i fod yn gwbl ddwyieithog erbyn gadael yr ysgol gynradd.

Trefn yr Ysgol:

Trefnir yr ysgol mewn dau ddosbarth yn unol ag oedran y plant:

Dosbarth 1 [Y Cyfnod Sylfaen] - Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2

Dosbarth 2 [Cyfnod Allweddol 2] - Blwyddyn 3, Blwyddyn 4, Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6

Ar adegau addas yn ystod y dydd cyflwynir y gwaith fel gweithgaredd dosbarth cyfan a chaiff cyfnodau eraill eu neilltuo ar gyfer gwaith grŵp a thasgau unigol. Mae pob uned dysgu yn cynnig cyfleoedd i addysgu ffurfiol ac anffurfiol.

Oriau Ysgol:

Bore 9.15 y bore – 12.15 y prynhawn

Prynhawn 1.00 y prynhawn – 3.30 y prynhawn

Mae'n hwyluso dechrau'r dydd os gall plant fod yn yr ysgol ychydig funudau cyn bod y sesiwn foreol yn cychwyn, ond ni all yr ysgol gymryd unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw blentyn sy'n cyrraedd mwy na

phymtheg munud cyn bod y sesiwn foreol yn cychwyn, hynny yw cyn 9.00 o'r gloch y bore.

Mae aelod o'r staff ar ddyletswydd bymtheg munud cyn dechreuad pob dydd a phymtheg munud ar ôl i'r ysgol orffen yn y prynhawn



Cludiant Ysgol

Mae Cyngor Sir Gâr yn darparu cludiant am ddim i blant sy'n gymwys o'u pen-blwydd yn bump oed tan iddynt adael yr ysgol. Sefydli'r y cymhwyster gan y Cyngor Sir.

Presenoldeb ac Absenoldeb:

Cofrestrir y plant bob dydd am 9.15 y bore ac un o'r gloch yn y prynhawn. Mae gan Ysgol Abernant record presenoldeb rhagorol. Er mwyn cynnal hwn, gwneir cais i rieni ddanfôn nodyn i'r ysgol neu ffonio, i roi eglurhad am unrhyw absenoldeb. Pan na cheir eglurhad barnir bod y plentyn yn absennol heb ganiatâd. Gellir gwneud trefniant absenoldeb cyfnod byr i unrhyw blentyn drwy wneud cais i'r prifathro, trwy lythyr os yn bosibl. Am gyfnodau hwy, dylid cyfeirio'r cais at yr Awdurdod Addysg Leol. Ni awdurdodir gwyliau teuluol.

PRESENOLDEB 2016/2017 96.3%

PRESENOLDEB 2016-2017		
	% Presenoldeb	% absenoldeb anawdurdodedig
Haf 2016	97.12%	0.40%
Hydref 2016	96.43%	0%
Gwanwyn 2017	98.09%	0.07%
Tymor yr Haf 2017	94.88%	0.04%

Trefniant Meddygol: Os oes gan eich plentyn apwyntiad meddyg, deintydd neu apwyntiad ysbyty yn ystod oriau ysgol, yna mae croeso i chi gasglu eich plentyn o'r ysgol neu ddychwelyd eich plentyn i'r ysgol. Yn anffodus, nid oes gennym staff ychwanegol i ddellio â phlant sy'n datblygu anhwyledd yn ystod oriau ysgol, felly mae'n rhaid eu danfon adre. Mae'n rheidiol fod gennym rif ffôn cyswllt cyfredol ar gyfer bob plentyn.

Argyfwng: O bryd i'w gilydd mae'n ofynnol cau'r ysgol ar fyr rybudd e.e. pan fo eira, pibau dŵr yn gollwng. Cyn oriau'r ysgol yn y bore gwneir pob ymdrech i hysbysu rhieni cyn gynted â phosibl, naill ai trwy gyfrwng cyhoeddiad ar Radio Cymru, Radio Wales, Radio Sir Gâr a neges ar wefan y Cyngor Sir neu drwy ffonio'r rhif ffôn cyswllt. Pe digwydd yr argyfwng yn ystod y dydd, yna defnyddir y rhifau ffôn cyfredol.

Gwisg Ysgol

Rydym yn annog disgyblion i wisgo gwisg ysgol gan nodi nad yw yn orfodol. Ein gwisg ysgol yw crys polo/crys chwys lliw glas brenhinol â bathodyn yr ysgol. Gellir gwisgo siorts du / llwyd yn yr haf. Disgwylir i'r plant gael siorts, crys T ac esgidiau addas ar gyfer sesiynau ymarfer corff. Cysylltwch â'r ysgol am wybodaeth bellach.

Mae'r dillad yma sy'n cynnwys logo'r ysgol arnynt ar gael yn siop 'Claire Adams', Heol y Brenin, Caerfyrddin. CSG. Co, Richmond Terrace, Caerfyrddin neu Dorian's Heel Bar, Y Farchnad, Caerfyrddin.

Gallwch brynu dillad ail law sydd mewn cyflwr arbennig o'r Gymdeithas Rhieni. Os hoffech chi wneud hynny plis cysylltwch â'r ysgol.

Ymarfer Corff: Wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau Addysg Gorfforol disgwylir i'r plant ddod mewn, neu newid i, ddillad pwrpasol a bydd yn ofynnol iddynt ddiosg unrhyw eitemau a allai fod yn beryglus iddo ef/ iddi hi neu eraill yn ystod y gweithgaredd hwnnw e.e. oriawr, breichled, clustdlysau, modrwyon.

Ein nod yw darparu amgylchedd anogol ond diogel lle gall y disgyblion weithio tuag at aeddfedrwydd cyffredinol.

Nofio: Mae'r Ysgol gyfan yn cael gwersi nofio am gyfnod bob blwyddyn. Disgwylir i'r plant ddod â gwisg a chap nofio yn ystod y sesiynau yma.

Clwb Brecwast :

Mae clwb brecwast yn cael ei ddarparu yn yr Ysgol a chaiff y plant gyrraedd rhwng 8.15 a 9.00am. Mae bwydlen amrywiol o rawnfwyd, sudd, ffrwyth a thost. Mae'r ddarpariaeth hyn am ddim yn unol â chanllawiau'r Cynulliad Cenedlaethol.

Clwb wedi oriau ysgol

Mae gan yr ysgol hefyd '**Glwb Ar Ôl Ysgol**' sydd ar gael bob dydd (ond Dydd Gwener) rhwng 3.30 a 5.30 y.h. Codir tâl bychan sy'n cynnwys byrbryd iach a gweithgaredd amrywiol.

Llaeth

Caiff plant o dan 7 oed laeth am ddim bob dydd.

Cinio

Darperir cinio i bob plentyn am bris a bennir gan y Cyngor Sir. Cesglir yr arian cinio ar fore Llun. Mae yna ddarpariaeth ar gyfer anghenion lluniaethol neu ddewisiadau lluniaethol. Os yw rhieni sy'n gymwys yn dymuno gwneud cais am giniawau ysgol am ddim, gofynnwch am ffurflen gais o'r ysgol os gwelwch fod yn dda, a dychwelwch y ffurflen wedi ei chwblhau i Swyddfa Cinio Ysgol Rad, Adeilad 2 Parc Dewi Sant, Caerfyrddin SA31 3HB. Os dymunir, gall eich plentyn ddod a phecyn o fwyd i'w fwyta adeg amser cinio. Darperir lle addas ar gyfer hynny.

Diogelwch

Bydd pob drws i mewn ac allan o'r ysgol ar glo yn ystod y diwrnod ysgol. Mae gan yr ysgol Allanfa Dân lle y gellir ei agor o'r tu mewn yn unig Cedwir clwyd yr ysgol ynghau yn ystod y dydd a'i chloi yn ystod y nos

Tywydd Garw

Yn ystod tywydd garw ni ddylid anfon un plentyn i'r ysgol hyd nes y ceir gwybodaeth bendant bod yr ysgol ar agor a'r athrawon wedi cyrraedd yr ysgol. Dylid ffonio'r ysgol am wybodaeth, ac os nad oes ateb dylid edrych ar wefan yr ysgol a gwefan y Sir- Ysgolion ar gau. Rhoddir gwybodaeth ar wefan y Sir www.sirgar.gov.uk ac ar Radio Cymru, Radio Wales, ac ar Radio Sir Gâr.

Cynhwysiant a Hygyrchedd i bawb

Mae croeso i unrhyw blentyn sydd eisiau ymuno ag Ysgol Abernant beth bynnag yw eu hanghenion. Gwneir pob ymdrech i gwrdd â'u hanghenion.

Derbyn plant i'r ysgol

Yn unol â chanllawiau Awdurdod Addysg Leol Sir Gaerfyrddin, derbynnir plant i mewn i'r ysgol yn llawn amser ar ddechrau'r tymor priodol fel a ganlyn.

Tymor yr Hydref - ar gyfer plant sydd yn 4 blwydd oed cyn Ionawr 1af

Tymor y Gwanwyn - ar gyfer plant sydd yn 4 blwydd oed cyn Ebrill 1af

Tymor yr Haf - ar gyfer plant sydd yn 4 blwydd oed cyn Medi 1af

Gall y plant ddod i mewn i'r ysgol am gyfnod penodedig, i'w drefnu gyda'r rhieni, ar ddiwedd y tymor blaenorol, er mwyn iddynt gael amser i ymgyfarwyddo gyda'u hamgylchedd newydd. Gwahoddir rhieni newydd i mewn i'r ysgol yn ystod y cyfnod yma i ymweld â'r ysgol ac i gael trafodaeth gyda'r athro dosbarth a'r Pennaeth. Sylweddolwn fod dechrau'r ysgol yn medru bod yn gyfnod pryderus i'r plant ac i'r rhieni, felly estynnir croeso cynnes iddynt ofyn unrhyw gwestiynau.

Anogir y rhieni i gofrestru eu plentyn ar wefan Cyngor Sir Gaerfyrddin www.sirgar.gov.uk

Disgyblion Anabl

Pe bai plentyn anabl yn mynychu'r ysgol, byddai'r ysgol, gyda chefnogaeth yr Awdurdod Addysg, yn sicrhau'r ddarpariaeth bwrpasol er mwyn i'r plentyn gael chwarae teg a chyfle cyfartal.

Yn Ysgol Gynradd Abernant rydym wedi ymrwymo i sicrhau triniaeth gyfartal beth bynnag bo'r ffurf o anabledd. Ein bwriad yw creu diwylliant o gymhwysiad ac amryfaliaeth lle mae pobl yn teimlo'n agored i ddatgelu eu hanabledd ac i gymryd rhan yn llawn ym mywyd yr ysgol. Arolygir gorchestion disgyblion anabl a defnyddir y data hwn i godi safonau a sicrhau addysg gynhwysol. Gwneir addasiadau cymedrol i wneud yn siŵr fod amgylchedd yr ysgol mor hygyrch â phosibl. Credwn fod amryfalwch yn gryfder a dylid ei barchu a'i ddathlu gan bawb sy'n dysgu, addysgu ac ymweld ag Ysgol Abernant.

Mae ymrwymiad yr Ysgol tuag at hyrwyddo cydraddoldeb anabledd ym mhob agwedd o fywyd ysgol yn berthnasol i:

- ddisgyblion
- rieni/gofalwyr
- staff
- aelodau o'r gymuned ehangach

Cysylltwch â'r ysgol os gwelwch yn dda os oes yna unrhyw gwestiynau

DIOGELU

Y Person â gofal Materion Diogelu yn yr ysgol yw : Mrs Geraldine Jenkins Pennaeth

Os nad ydy ar gael siaradwch â Mrs Linda Davies Athrawes

Y Llywodraethwraig â gofal Diogelu yw: Mrs Gaynor Lewis

Cyswllt Ychwanegol:

Bethan Tinney (County's Safeguarding Officer) – 01267 246154

Social Services – 01554 742322

Cadeirydd y Llywodraethwyr:

Mrs Gaynor Lewis

Iechyd a Diogelwch

Mae gan yr ysgol bolisi sy'n sicrhau ein bod yn darparu a chynnal amgylchiadau gwaith diogel ac iach. Rydym yn darparu gwybodaeth a hyfforddiant lle bo hynny'n bosibl neu'n angenrheidiol, ac arolygaeth i'r diben hwn. Gellir cael copi o bolisi Iechyd a Diogelwch yr ysgol o'r Prifathro. Caiff asesiadau risg eu cwblhau yn rheolaidd i sicrhau fod yr adeilad, y safle a mannau ymweld yn ddiogel i'r plant, i'r staff ac i ymwelwyr.

GWEFAN YSGOL

Mae'r gwefan ysgol ar wefan Cyngor Sir Gaerfyrddin neu drwy Amdro www.amdro.org.uk-Ysgol Abernant

Trefniadau mynediad i ddisgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig:

Bydd plant ag anghenion arbennig yn derbyn cymaint o sylw personol ac sydd yn bosibl gan yr athro dosbarth ag aelodau o'r staff. Os oes angen cymorth dwysach efallai bydd angen ailgyfeiriad i'r Seicolegydd Addysg. Yn y sefyllfa lle nag oes datrysiad yn bosibl i broblemau'r disgybl o fewn fframwaith yr ysgol, yna mae'n bosibl trosglwyddo i uned arbenigol lle mae gwybodaeth arbenigol ac adnoddau mewn gwell sefyllfa i ddelio â phroblemau o'r fath.

Cyfleoedd Cyfartal

Ymdrechir i roi cyfle cyfartal i bob plentyn ar bob adeg heb wahaniaethu ar sail rhyw, iaith, oed nac anabled. Mae'r ysgol yn gweithio tuag at gyfle cyfartal i ddatblygu sgiliau personol a chymdeithasol mewn gweithgareddau allgyrsiol. Anogir codi disgwyliadau addysgol disgyblion ac i ehangu eu cyfleoedd galwedigaethol.

Cytundeb Ysgol a Chartref

Diogelwch, hapusrwydd ac addysg ein disgyblion yw'r flaenoriaeth i ni gyd fel staff, rhieni, llywodraethwyr a ffrindiau'r ysgol. Mae'n holl bwysig felly bod y bartneriaeth hon yn un gref, agored a ffrwythlon er mwyn dyfodol llewyrchus a llwyddiannus y disgyblion. Gofynnir yn garedig i chi arwyddo'r cytundeb a'i thrafod gyda'ch plentyn.

Arweiniad i rieni wrth baratoi i blentyn ddechrau'r ysgol

- Siarad â'r plentyn yn gadarnhaol am ddechrau'r ysgol gan ei hysbysu beth i'w ddisgwyl e.e. ffrindiau newydd, gweithgareddau cyffrous fel chwarae â dŵr, tywod, paent a gwaith crefft.
- Gadael y plentyn gyda ffrindiau neu berthnasau am gyfnodau byr i'w gyfarwyddo â bod oddi cartref.
- Ei gofrestru mewn cylch meithrin er mwyn iddo gyfarwyddo â chwarae a rhannu gydag eraill.
- Derbyn ei ffrindiau i'r tŷ am gyfnodau.
- Ei annog i chwarae â phensiliau, creonau, paent diogel, tywod, dŵr a siswrn arbennig i blant bach.
- Darllen a dweud storiâu wrtho, trafod llyfrau gan sgwrsio am y lluniau a'r stori, a'i ddysgu i barchu llyfrau a gofalu amdanynt.
- Canu rhigymau, emynau a chaneuon syml gyda'ch gilydd.
- Ei hyfforddi i :-
 - fwyta'n daclus
 - ddefnyddio'r toiled yn iawn
 - olchi ei ddwylo
 - gwisgo a dadwisgo
 - chwythu ei drwyn



Cofiwch fod cyfle i drefnu sgwrs neu drafodaeth ar unrhyw adeg pe bai'r rhieni neu'r ysgol yn teimlo'r angen.

Iaith

Y nod yw sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn meddu ar ddwyieithrwydd cytbwys sy'n berthnasol i'w hoed er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn byw ynddi. Yn ogystal mae angen sicrhau bod y plant yn gwbl ymwybodol o etifeddiaeth ddiwylliannol y Cymry.

Gan fod Ysgol Abernant yn ysgol Categori Cyfrwng Cymraeg, Cymraeg yw iaith naturiol cyfathrebu'r ysgol, a chynhelir gwasanaethau boreol a gweithgareddau'r ysgol yn bennaf yn y Gymraeg. Os bydd plentyn di-gymraeg yn ymuno â'r dosbarth, bydd yn cael ei drin yn deimladwy ac yn cael ei gyflwyno i'r ail iaith yn raddol hyd nes bydd wedi ymgartrefu ac ymglyfarwyddo â'r sefyllfa.

Dylai'r ddarpariaeth a wneir o fewn yr ysgol sicrhau bod pob plentyn yn medru cyfathrebu yn hyderus yn y ddwy iaith.

Y Cwricwlwm

Ceisir sicrhau bod yr addysg sy'n cael ei chynnig yn eang a chytbwys yn ôl gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Credir y bydd yr addysg yn hybu datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol pob plentyn sydd yn yr ysgol. Rydym hefyd am sicrhau bod y cwricwlwm yn addas ar gyfer pob plentyn.

Y Cyfnod Sylfaen: mae blynyddoedd meithrin, derbyn, blwyddyn 1 a 2 yn cael eu haddysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen mewn un dosbarth cymysg o ran gallu oedran ac iaith.

Cynllunir yr addysg drwy 6 maes dysgu

- iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu
- datblygiad personol a chymdeithasol
- datblygiad mathemategol
- gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd
- datblygiad corfforol
- datblygiad creadigol

Egwyddorion y Cyfnod Sylfaen

- dysgu sut i ddysgu
- sgiliau Rhifedd a Llythrennedd ar draws y meysydd
- datblygu sgiliau meddwl
- meithrin agweddau cadarnhaol at ddysgu gydol oes
- dod yn ddysgwyr hyderus, annibynnol sy'n llawn brwdfrydedd dros eu haddysg a dysgu

Cyfnod Allweddol 2: Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol i flwyddyn 3-6 yn cynnwys y pynciau craidd canlynol :-

- Cymraeg
- Saesneg
- Mathemateg
- Gwyddoniaeth

a'r **pynciau sylfaenol** :-

- Dylunio a Thechnoleg
- Hanes
- Daeryddiaeth

- Celf
- Cerddoriaeth
- Addysg Gorfforol
- Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
- Addysg Bersonol a Chymdeithasol
- ynghyd ag Addysg Grefyddol

Un dosbarth o oed cymysg blynyddoedd 3 i 6 sydd gan yr ysgol yn yr Adran Iau. Gweithredir y cwrs addysg yn bennaf drwy fynd ati'n draws gwricwlaidd. Mae hyn yn golygu addysgu rhannau o'r Cwrs Addysg Genedlaethol o safbwynt thema. Mae yna adegau pan fo'r gwaith yn seiliedig ar bwnc.

Defnyddia'r athrawon amrywiol ddulliau addysgu sy'n cynnwys gwaith unigol, grwpiau bach a dosbarth i'r disgyblion. Anelir at sicrhau meistroldeb yn y sgiliau sylfaenol sef llafar, darllen, ysgrifennu, gwaith rhifedd, TG a datblygu sgiliau meddwl.

Anelir i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd y disgyblion ar draws ystod y Cwricwlwm. Rydym yn anelu at gyflwyno cwrs addysg a fydd yn:

- **Ddwyeithog** - disgwylir i'r disgyblion astudio diwylliant a hanes Cymreig a Seisnig yn ogystal â'r ieithoedd.
 - **Eang** - gan gyflwyno i'r disgyblion ystod eang o wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau.
 - **Cytwbws** - dosberthir amser digonol i bob rhan iddo wneud ei gyfraniad arbennig ond nid yn ormodol rhag iddo lethu rhannau eraill angenrheidiol.
 - **Perthnasol** - addysgir pynciau fel eu bod yn datgelu eu cymhwysiad i brofiad personol y disgybl ac i'w lawn dwf ac i roi dyledus bwyslais i agweddau ymarferol.
 - **Gwahaniaethol** - mae angen i'r hyn a addysgir a sut ei addysgir cyfateb i allu a chymhwyster y disgybl.
- **Parhaol a Blaengar**
 - wedi ei gynllunio ar draws y cwrs addysg o fewn polisi ysgol gyfan.
 - cofnod i'w gadw gan bob athro
 - deialog rhwng athrawon.

Anghenion Addysg Arbennig

Mae'n gyfrifoldeb ar bob ysgol i ganfod disgyblion sydd ag anghenion addysg a sicrhau cyfle cyfartal cwricwlaidd a chymdeithasol ar eu cyfer.

Amcanion

- adnabod yn gynnar y plentyn sydd ag anawsterau
- sicrhau y bydd darpariaeth angenrheidiol ar gyfer y plentyn
- ceisio sicrhau cefnogaeth a phartneriaeth i gydweithio â rhieni
- ceisio sicrhau cydweithrediad a chefnogaeth asiantaethau allanol
- rhoi sylw ac arweiniad i blentyn sydd yn arbennig o abl a thalentog

Camau

- Fe fydd yr athro dosbarth yn nodi'r plentyn sydd angen cymorth ychwanegol a'i enwi ar y gofrestr Anghenion Addysg Arbennig yr Awdurdod Lleol
- Cesglir gwybodaeth a llunnir Cynllun Addysg Unigol
- Cydweithio rhwng y cyd-gysylltydd Anghenion Arbennig
- Cefnogi trefniant darpariaeth yr Awdurdod Addysg Leol

Mae copi o'r polisi Anghenion Addysgol Arbennig ar gael yn yr ysgol.

Addysg Grefyddol

Mae Deddf Addysg 1988 yn datgan y dylai Addysg Grefyddol mewn ysgolion "adlewyrchu'r ffaith bod traddodiadau crefyddol y wlad hon yn draddodiadau Cristnogol, ond dylid hefyd ystyried addysgu ymarferion crefyddol crefyddau eraill sy'n gynrychiolaidd yng ngwledydd Prydain".

Addoliad ar y cyd: mae addoli ar y cyd yn rhan allweddol o fywyd ysgol ac yn cyfrannu at ddatblygiad ein hethos teuluol. Gellir addoli ar gân, mewn gweddi neu drwy stori. Drwy hyn yr ydym yn manteisio ar yr amser i drafod ac atgyfnerthu gwerthoedd da, lles pob unigolyn ac ymddygiad cadarnhaol.

Mae pob disgybl cofrestredig yn cymryd rhan mewn gweithred o addoliad fel ysgol gyfan neu yn y dosbarthiadau bob dydd. Mae addoliad cyfunol yn adlewyrchu yn gyfan gwbl neu'n bennaf, draddodiad eang o gred Gristnogol, ond mae'n anenwadol ac mae disgwyl i bob disgybl fod yn bresennol heblaw ei fod wedi ei eithrio ar sail grefyddol. Yn nhymor yr hydref cynhelir Cwrdd Diolchgarwch yn yr Eglwys leol ac yn rhan o ddatllu'r Nadolig cyflwynir agwedd o 'Ddrama'r Geni' a chennir carolau.

Mae hawliau gan rieni i dynnu eu plant yn gyfan gwbl neu'n rhannol o addysg grefyddol ac addoli ar y cyd. Gan nad oes plentyn yn yr ysgol wedi ei eithrio, nid oes darpariaeth amgen ar gyfer y disgyblion hynny sydd wedi'u hesgusodi.

Gwasanaeth Cerdd

Mae plant yr adran iau yn cael cyfle i ddysgu canu'r ffidil, y recorder a'r gitâr, ac fe'u dysgir yn wythnosol gan athrawon peripatetig y Sir.

Chwaraeon

Ein nod yw addysgu ein disgyblion fod yna gysylltiad clir rhwng ymarfer y corff drwy chwaraeon o bob math a chadw'n iach a heini, drwy roi amrywiaeth eang o gyfleoedd iddynt yn y gwersi ac mewn clybiau. Disgwylir i bob disgybl gymryd rhan mewn gwersi Addysg Gorfforol a chwaraeon. Mae gymnasteg, dawns greadigol, pêl-droed, criced, pêl-rwyd, rownderi, athletau, traws-gwlad, rhedeg a nofio ar gael i'r disgyblion. Darperir gwersi nofio am gyfnod penodol bob blwyddyn ym mhwl nofio Canolfan Hamdden Caerfyrddin. Defnyddir yr iard, cae'r ysgol a'r neuadd er mwyn cyflawni gwahanol agweddau o'r cwricwlwm.

Addysg Rhyw

Yn unol â chytundeb y Corff Llywodraethol nid yw addysg rhyw yn cael ei ddysgu fel rhan o'r cwrs addysg, heblaw am yr agweddau sydd yn y Cwricwlwm Cenedlaethol. Pan fydd cwestiwn perthnasol yn cael ei ofyn gan ddisgybl, bydd yn cael ei ateb yn sensitif a phriodol yn ôl oed ac aeddfedrwydd y plentyn. Bydd Nyrs yr Ysgol yn dod i'r ysgol yn nhymor yr haf i roi sgwrs i ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 ar ddatblygiad corfforol ac emosiynol yr unigolyn, ynghyd â blaen lencyndod. Mae gan riant yr hawl i eithrio eu plentyn o unrhyw Addysg Ryw. Cysyllter â'r Pennaeth os am wneud hynny.

Gwaith Cartref

Gofynnir i'r plant ddarllen bob nos

Anogwn ni chi fel rhieni i:-

- ddarllen i'r plant
- wrando arnyn nhw'n darllen
- drafod storïau gyda nhw
- Fe fydd plant yn y Cyfnod Sylfaen, wrth ddatblygu, yn cael llyfryn cofnod fel cyswllt wythnosol.

Fe fydd yr adran iau yn derbyn un darn o waith cartref yn wythnosol a ddylai gymryd tua hanner awr i'w gwblhau. Canllaw yw hwn. Mae ffactorau eraill sydd yn dylanwadu ar waith cartref e.e. angen y plentyn, hyd y gwaith, trefn y diwrnod ac yn y blaen. Ar adegau penodol o'r flwyddyn, bydd mwy o waith cartref dysgu ar y cof e.e. cyn perfformiadau ysgol neu eisteddfod.

Os oes angen gwybodaeth bellach ar waith cartref, mae croeso i chi ddod i'w drafod gyda'r athrawon.

Ymweliadau Addysgol

Bydd y disgyblion yn mynd ar ymweliadau achlysurol sydd yn ymestyn eu dealltwriaeth o'u gwaith yn y dosbarth. Hefyd rydym yn gwahodd ymwelwyr i'r ysgol.

Polisi Codi Tâl

Ni chodir tâl am weithgareddau ysgol, heblaw am deithiau addysgol ac unrhyw weithgareddau allgyrsiol a drefnir gan fudiadau allanol, pryd gofynnir am gyfraniad. Gellir gweld copi llawn o bolisi codi tâl yr ysgol drwy ofyn i'r Pennaeth.

Mynediad i ddogfennau yn ymwneud â chwrs addysg yr ysgol.

Mae copïau o holl bolisiâu a chynlluniau gwaith dosbarth yr ysgol ar gael yn yr ysgol. Os yw rhieni yn dymuno eu darllen, gwneir trefniant gyda'r Pennaeth i wneud hynny os gwelwch yn dda.

Datblygiad eich plentyn

- Ceir "Noson Ysgol ar Waith" i'r rhieni yn nhymor yr Hydref
- Gwahoddir y rhieni i'r ysgol yn nhymor y Gwanwyn er mwyn trafod gwaith eu plentyn a gosod targedau ar eu cyfer.
- Dosberthir adroddiadau ysgrifenedig ar gynnydd y disgyblion ar ddiwedd tymor yr haf a gwahoddir y rhieni i wneud trefniant i gyfarfod â'r athro dosbarth ar noson benodol i drafod cynnwys yr adroddiad a chynnydd eu plant.

NOSWEITHIAU RHIENI

Trafodir gwaith a safon y plant gyda'r rhieni ar nosweithiau penodedig trwy gydol y flwyddyn. Y mae tri chyfle i'r rhieni i ddod i sgwrsio gyda'r athrawon ac mae'r un olaf yn ddewisol a hynny yn dilyn derbyn adroddiad ysgrifenedig.

Polisi Drws Agored - Mae'n bwysig cofio bod croeso i chi'r rhieni drefnu dod i'r ysgol er mwyn trafod unrhyw ofidiau sydd gennych am addysg a chynnydd eich plentyn gyda'r athro dosbarth neu'r Pennaeth, ar unrhyw adeg o'r flwyddyn ysgol.

Cyngor Ysgol

Cynrychiolir disgyblion yr ysgol gan y Cyngor. Caiff pob disgybl y cyfle i fod yn aelod o'r Cyngor Ysgol drwy etholiad a drefnir bob Mis Medi. Cynhelir cyfarfodydd unwaith bob tymor i drafod gwahanol faterion yn ymwneud â bywyd yr ysgol.

Trefniant:

- Gosod amserlen

- Creu a chyflwyno maniffesto
- Pleidleisio
- Ethol swyddogion

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am :-

- Drefnu gweithgareddau e.e. 'Diwrnod y Llyfr'
- Codi arian
- Ysgrifennu llythyron

Gofal Bugeiliol

Yn gyffredinol, cyfrifoldeb yr athrawon dosbarth a'r Pennaeth yw gofal y plant. Yn Ysgol Abernant edrychwn ar les pob unigolyn fel cyfrifoldeb pawb sydd yn ymwneud â'r plant, gan gynnwys yr athrawon a staff nad ydynt yn dysgu.



Rheolau'r Ysgol

Rydym yn dysgu plant i fod yn ystyriol o'i gilydd a'u hannog i gymryd gofal o eiddo'r ysgol yn ogystal â'u heiddo eu hunain a disgyblion eraill. Mae hefyd yn golygu ein bod yn anelu at greu awyrgylch dawel a threfnus lle gall dysgu effeithiol a phleserus ddigwydd. Felly mae'n bwysig fod gennym rai rheolau rhesymol a syml er mwyn i bawb gydweithio'n esmwyth a diogel.

Meddyginiaeth:

Os yw'n angenrheidiol i'ch plentyn gymryd moddion (antibiotics y unig) yn ystod oriau ysgol, gofynnir i'r rhieni gysylltu â'r ysgol, ynghyd ag anfon llythyr yn nodi'r cyfarwyddiadau ar sut i'w weinyddu.



Moddion

Trosglwyddo i Ysgol Uwchradd

Fel arfer bydd plant yn trosglwyddo naill ai i Ysgol Gyfun Bro Myrddin neu i Ysgol Uwchradd y Frenhines Elizabeth ac mae cyswllt agos rhwng ein hysgol ni a'r ddwy ysgol uwchradd yma. Bydd rhieni plant blwyddyn 6 yn derbyn gwybodaeth oddi wrth adran addysg Sir Gaerfyrddin ym mis Rhagfyr cyn trosglwyddo, a bydd hawl gan rieni wneud cais ar gyfer yr ysgol uwchradd o'u dewis trwy lenwi'r ffurflen briodol.

Cwynion

Pe bai gan rieni gŵyn yn erbyn yr ysgol neu'r staff, cysyllter â'r Pennaeth yn syth. Os yw'r gofidiau hyn yn berthnasol i ymddygiad y Pennaeth, rhaid i'r mater gael ei gyfeirio at sylw Cadeirydd y Corff Llywodraethol. Pe byddai'r rhiant yn mynd â'r achos i gŵyn swyddogol yna delir a'r sefyllfa drwy'r Corff Llywodraethol a'r Awdurdod Addysg yn unol â chanllawiau eu Polisi Cwynion.

Gweithgareddau Ychwanegol

Yr Urdd: Mae cangen o'r Urdd yn yr ysgol a chyfle i'r plant ymaelodi yn flynyddol. Bydd gweithgareddau yn enw'r Urdd yn cael eu cynnal yn lleol a chyfle i bawb gystadlu mewn cystadlaethau llwyfan, celf a chwaraeon. Bydd disgyblion blwyddyn 5 a 6 yn cael y cyfle i ymweld â gwrsyll yr Urdd yng Nghaerdydd neu Llangrannog yn flynyddol.

Cymdeithas Rhieni'r Ysgol

Mae'r mudiad yn gefnogol iawn i'r ysgol, ac yn cynnal amrywiol weithgareddau er mwyn codi arian a chymdeithasu. O ganlyniad i'r arian sylweddol a godir gan y mudiad, mae'r ysgol wedi elwa'n fawr iawn. Cynhelir cyfarfod blynyddol ym mis Medi. Mae croeso i bob rhiant ymuno yng ngweithgareddau'r mudiad.

Yr Ysgol yn y Gymuned

Yr ydym yn credu'n gryf mewn cadw cysylltiad byw ac agos gyda'r ardal leol. Un ffordd yr ydym yn sicrhau bod pobl yr ardal yn gweld y gwaith a'r talentau sydd o fewn yr ysgol yw'r perfformiadau a wneir yn ystod y flwyddyn o fewn yr ysgol a'r pentref.

Canlyniadau Aseidiadau Disgyblion

Cyfnod Sylfaen: gan fod 4 neu lai o blant yn gymwys i'w asesu yn y Cyfnod Sylfaen, ni fydd canlyniadau'r nifer fechan yma a aseswyd yn cael eu cyhoeddi er mwyn amddiffyn manylion personol yr unigolion.

Canlyniadau CA2: gan fod llai na 10 disgybl ond mwy na 4 disgybl yn gymwys i'w asesu adroddwn ar y canran o'r disgyblion sydd wedi llwyddo i dderbyn Lefel 4 neu uwch.

ASESIAD

Yn unol ag athroniaeth y Cwricwlwm Cenedlaethol, bydd yr holl ddisgyblion yn cael eu gwaith wedi'i asesu'n barhaol drwy gydol eu cyfnod yn yr ysgol. Caiff y plant eu hasesu, gan ddefnyddio'r Aseiad Cychwynnol, yn ystod y chwech wythnos cyntaf o'u Blwyddyn Derbyn. Dechreuir proffil ar y plentyn o'r diwrnod cyntaf y mae ef/hi yn dechrau yn yr ysgol ac ynddo cedwir yr holl wybodaeth yn ymwneud â chynnydd y plentyn. Yn achlysurol cedwir enghreifftiau o waith y plentyn fel cofnod y gellir cyfeirio ato er mwyn archwilio cynnydd y plentyn ac i ddibenion diagnostig. Rhoddir adroddiad ysgrifenedig ar ddiwedd pob blwyddyn academaidd a gall y rhieni gadw'r rhain.



*O'r hedyn bach a blannwn heddiw,
Yfory fe dyf blodyn hardd.*

Diolch am ddarllen ein prospectws ysgol.

Mrs G Jenkins
Pennaeth